***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1172 (Cy.95)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston-Redberth) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i Wneud* | - - | *28 Ebrill 2000* |
| *Yn Dod i Rym* | - - | *17 Mai 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pwer galluogi arall(**2**):–

**1.** Daw'r briffordd newydd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**3.** Mewn perthynas ag unrhyw ran o briffordd sy'n croesi llwybr y gefnffordd newydd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cyfarwyddo:

(a) lle mae'r briffordd yn briffordd y gellir ei chynnal ar draul y cyhoedd gan yr awdurdod priffyrdd lleol, y cynhelir y rhan o dan sylw gan yr awdurdod hwnnw; a

(b) lle nad yw'r briffordd yn briffordd y gellir ei chynnal felly ac na ellir ei chynnal ychwaith o dan ddeddfiad penodol neu oherwydd deiliadaeth, cau neu ragnodi, na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan unrhyw ddyletswydd i gynnal y rhan o dan sylw.

**4.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a chânt eu dosbarthu fel ffyrdd dobarthiadol o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n hysbysu Cyngor Sir Penfro fod y gefnffordd newydd ar agor i draffig drwodd.

**5.** Yn y Gorchymyn hwn

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(2) ystyr "**ffordd ddosbarthiadol**" ("*classified road*") fel dosbarthiad o briffordd yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd yn brif ffyrdd, ond mae'n ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn

(**1**) 1980 p.66

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

sy'n cyfeirio at briffyrdd sydd wedi'u dosbarthu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at eu dosbarthu yn brif ffyrdd;

ystyr "**y gefnffordd**" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477);

ystyr "**y gefnffordd newydd**" ("*the new trunk road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "**y plan a adneuwyd**" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA10/2 NAFW 1 wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston-Redberth) 2000 a lofnodwyd drwy awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i adneuo yn Ystorfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Curran Embankment, Caerdydd.

**6.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mai 2000 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston – Redberth) 2000.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd

*D.M. Timlin*
Pennaeth yr Is-Adran Gweinyddu Ffyrdd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiedig y 28 Ebrill 2000

ATODLEN 1

**Llwybr y Gefnffordd Newydd**

The route of the new trunk road is a route at Milton, Sageston and Redberth in the County of Pembrokeshire about 4.80 kilometres in length starting at a point on the existing Trunk Road about 260 metres west of its junction with the A4075 then going in a northeasterly direction to a point on the existing Trunk Road about 110 metres southwest of its junction with the C3129.

ATODLEN 2

**Darnau o Gefnffordd sy'n peidio â bod yn Gefnffyrdd**

**1.** Y darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt rhyw 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd ag A ar y plan a adneuwyd a phwynt rhyw 210 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd â B ar y plan a adneuwyd.

**2.** Y darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt rhyw 475 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd ag C ar y plan a adneuwyd a phwynt rhyw 275 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r C3129 a farciwyd â D ar y plan a adneuwyd.